

# SL(6)095 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

## Cefndir a diben

Mae [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) \(Rhif 14\) 2021](#) ("y Rheoliadau") yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 ("Rheoliadau Rhif 13").

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Yn wreiddiol, diwygiodd Rheoliadau Rhif 13 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") i ychwanegu Mozambique a Malawi at y rhestr o wledydd neu diriogaethau yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Nodwn, fodd bynnag, er bod Rheoliadau Rhif 13 i fod i ddod i rym am 8.00 pm ar 26 Tachwedd 2021, bod y Rheoliadau wedi'u dirymu am 19:59 ar 26 Tachwedd 2021. Wedi hynny, ychwanegodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021 Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol am 04:00 ar 28 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Yn dilyn fy llythyr yn gynharach heddiw ynghylch Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021, ac yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 19:59 oriau ar 26 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 29 Tachwedd."*

Nodwn ymhellach yr esboniad canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr, a elwir yn Omicron, wedi'i nodi mewn sawl gwlad. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder, oherwydd y nifer mawr o fwtaniadau y mae rhai ohonynt yn destun pryder."*

O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y 'rhestr goch' o wledydd ond yn sgil yr angen i gael cytundeb cyfunol ar draws y DU, bu oedi o ran gosod Rheoliadau'r DU. I sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, dirymwyd y Rheoliadau.

*Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, roedd modd i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau blaenorol cyn iddynt ddod i rym, gan barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol."*

*Yn dilyn datblygiadau pellach y noswaith honno a thrafod pellach ar draws y DU, ychwanegwyd Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y rhestr goch o wledydd ar 27 Tachwedd."*



## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

## **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

